# Radio Cymru 2 : Ymgynghoriad Prawf Lles y Cyhoedd

Dogfen ymgynghori'r BBC

Dyddiad cyhoeddi: 27 Gorffennaf 2023

Dyddiad cau: 31 Awst 2023

**Tabl Cynnwys**


**1. Crynodeb gweithredol .......... 2**

1.1 Cynigion y BBC ar gyfer Radio Cymru 2 .......... 2

1.2 Gwerth cyhoeddus y newidiadau hyn .......... 2

1.3 Proses gymeradwyo reoleiddiol .......... 2

**2. Cyd-destun ein cynigion .......... 4**

2.1 Gwasanaethau Cymraeg y BBC .......... 4

2.2 Datblygu Radio Cymru 2 .......... 4

**3. Cynigion y BBC ar gyfer Radio Cymru 2 .......... 6**

3.1 Cynulleidfa darged .......... 6

3.2 Cyllideb .......... 6

3.3 Cynnig golygyddol .......... 6

3.4 Dosbarthu .......... 8

3.5 Amcangyfrif o gyrhaeddiad a chyfran y gwrando .......... 8

3.6 Effaith bosibl ar y farchnad .......... 8

**4. Darparu gwerth cyhoeddus .......... 11**

4.1 Cyflawni yn erbyn Cenhadaeth y BBC .......... 11

4.2 Ein damcaniaeth gwerth cyhoeddus .......... 11

**5. Manylion pellach am yr ymgynghoriad .......... 13**

5.1 Proses Prawf Lles y Cyhoedd .......... 13

5.2 Cwestiynau ymgynghoriad y BBC .......... 15

5.3 Sut i ymateb .......... 15

# 1. Crynodeb gweithredol

## 1.1 Cynigion y BBC ar gyfer Radio Cymru 2

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn egluro cynnig y BBC i ymestyn nifer yr oriau Cymraeg gwreiddiol sy'n cael eu cynnig gan Radio Cymru 2 fel ei fod yn dod yn Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU yn ei rinwedd ei hun. Ar hyn o bryd mae Radio Cymru 2 yn cynnig 25 awr o raglenni cerddoriaeth ac adloniant yr wythnos fel dewis o brif orsaf radio Gymraeg y BBC Radio Cymru.

Yn y ddogfen hon, rydym yn nodi cyd-destun y farchnad, manylion ein cynnig a sut bydd y cynnig hwn yn cynhyrchu gwerth cyhoeddus. Rydym yn gwahodd ymatebion gan yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb, yn arbennig ymatebion ynghylch gwerth cyhoeddus ac effaith y cynigion ar y farchnad.

## 1.2 Gwerth cyhoeddus y newidiadau hyn

Rydym o'r farn y bydd ymestyn oriau Radio Cymru 2 a'i sefydlu fel gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU yn ei rinwedd ei hun yn cyfrannu at ymrwymiadau Siarter y BBC i ddarparu cynnwys Cymraeg.

Drwy gynnig amserlen cerddoriaeth ac adloniant sy'n cael ei chynnal yn gyfan gwbl yn y Gymraeg ac sy'n cynnwys cyfran uchel o gerddoriaeth Gymraeg, rydym o'r farn y bydd Radio Cymru 2 yn:

- Denu cynulleidfa iau (rhwng 25 a 54 oed) sydd â diddordeb mewn clywed cynnwys rhaglenni cerddoriaeth a llafar yn Gymraeg ond a allai fod â lefelau is o ruglder yn y Gymraeg.
- Darparu mwy o werth i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith. Bydd gwrandawyr yn gallu cael gafael ar fwy o gynnwys, gan roi mwy o ddewis iddynt o ran rhaglenni Cymraeg gwahaniaethol.
- Annog defnydd ehangach o'r Gymraeg.
- Cynyddu cyrhaeddiad y gynulleidfa gyda mwy o oriau o gynnwys gwreiddiol y bydd gwrandawyr Radio Cymru 2 yn eu mwynhau.
  Cefnogi'r diwydiant recordio cerddoriaeth Gymraeg. Byddwn yn arddangos mwy o gerddoriaeth gan artistiaid Cymraeg presennol a newydd.
- Byddai'r datblygiad hwn yn digwydd yng nghyd-destun nod Llywodraeth Cymru i greu 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 – amcan polisi sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).[1]

## 1.3 Proses gymeradwyo reoleiddiol

Mae'r Cytundeb Fframwaith yn datgan mai dim ond ar ôl iddo gynnal Prawf Lles y Cyhoedd y gall y BBC wneud newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y DU, ac ar ôl iddo benderfynu bod y Prawf wedi'i fodloni a bod Ofcom wedi cymeradwyo'r newid. Diffinnir newid sylweddol fel "Gwasanaeth Cyhoeddus y DU newydd" neu "unrhyw newid

---

[1] Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2022 i 2023, Llywodraeth Cymru, 22 Mawrth 2022

i Wasanaeth Cyhoeddus y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol”.[2]

Mae Ofcom wedi cadarnhau y byddai’r bwriad i ymestyn oriau Radio Cymru 2 yn golygu ei fod yn Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU. O’r herwydd, mae’r newid yn gofyn am Brawf Lles y Cyhoedd.

Fel rhan o’r broses hon, rydym yn ymgynghori’n gyhoeddus ar y cynigion hyn er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau. Rydym yn gwahodd ymatebion gan yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb, yn arbennig ymatebion ynghylch gwerth cyhoeddus ac effaith y cynigion ar y farchnad. Mae’r ymgynghoriad hwn yn rhedeg am bum wythnos o 27 Gorffennaf 2023 i 31 Awst 2023. Yn y cyfamser, byddwn yn cynnal dadansoddiad pellach er mwyn asesu’r gwerth cyhoeddus ac effaith y cynigion hyn ar y farchnad.

Byddwn yn penderfynu ar ein cynigion terfynol ar sail yr ymchwil, y dadansoddiad a’r adborth gan randdeiliaid. Os bydd Bwrdd y BBC yn penderfynu bod y cynigion hyn yn bodloni Prawf Lles y Cyhoedd, byddwn yn anfon argymhelliad y Prawf Lles y Cyhoedd a’r dystiolaeth ategol at Ofcom. Ar y pwynt hwn, byddwn yn cyhoeddi'r argymhelliad, yr ymchwil a’r dadansoddiad ar gyfer y Prawf Lles y Cyhoedd. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn digwydd yn ystod hydref 2023.

[2] Cytundeb Fframwaith y BBC, cymal 7(6) a 7(7).

# 2. Cyd-destun ein cynigion

Yn yr adran hon, rydym yn nodi'r gwasanaethau a gynigir gan BBC Cymru Wales, yn enwedig y gwasanaethau radio Cymraeg, ac amserlen ar gyfer datblygiad Radio Cymru 2 ers ei lansio.

## 2.1 Gwasanaethau Cymraeg y BBC

Mae BBC Cymru yn darparu amrywiol gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i gynulleidfaoedd ledled Cymru, yn ogystal â chynnwys blaenllaw ar gyfer rhwydwaith ehangach y BBC. Yn benodol:

- Mae BBC One Wales, BBC Two Wales a BBC iPlayer yn darparu rhaglenni teledu sy'n arbennig o berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru.
- Mae BBC Radio Wales yn wasanaeth llafar cenedlaethol i oedolion, sy'n cynnig amrywiaeth o raglenni ac sy'n adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru.
- Mae BBC Radio Cymru yn wasanaeth radio llafar a cherddoriaeth cenedlaethol ar gyfer siaradwyr Cymraeg.
- Mae BBC Cymru Fyw yn wasanaeth newyddion, chwaraeon a gwybodaeth ar-lein yn y Gymraeg.
- Mae gwefan ac apiau BBC News a BBC Sport yn darparu gwasanaeth cenedlaethol llawn i Gymru yn Saesneg.
- Mae BBC Bitesize yn darparu adnoddau dysgu i gefnogi cwricwlwm datganoledig Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Hefyd, mae BBC Cymru Wales yn cynhyrchu 520 awr y flwyddyn ar gyfer S4C, y sianel deledu Gymraeg.

## 2.2 Datblygu Radio Cymru 2

Mae BBC Radio Cymru yn darlledu ledled Cymru am oddeutu 19 awr y dydd. Yn ystod y dydd, mae Radio Cymru yn cael ei harwain gan siarad, gyda 100% o raglenni llafar rhwng 7am a 8.30am. Yn 2022-23, roedd 68% o'i allbwn yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos yn raglenni llafar, gan cynnwys rhaglenni newyddion, materion cyfoes, drama a chwaraeon, ac ym mhob wythnos roedd Radio Cymru yn darlledu 28 awr o raglenni newyddion a materion cyfoes. Mae Radio Cymru ar gael ar FM, DAB, BBC Sounds, apiau ar-lein eraill, seinyddion clyfar a theledu digidol.

Lansiwyd BBC Radio Cymru 2 yn 2018 fel gwasanaeth optio allan gan Radio Cymru, gan ddarparu arlwy adloniant Cymraeg cenedlaethol amgen yn ystod oriau brig amser brecwast i ategu rhaglen newyddion bresennol llafar i gyd Radio Cymru ar y prif wasanaeth.[3] Roedd yn cynnig 15 awr o raglenni bob wythnos ar DAB, BBC Sounds, apiau ar-lein eraill, seinyddion clyfar, a theledu digidol. Rhwng 7am a 9am oedd ei oriau darlledu yn ystod yr wythnos ac ar ddydd Sadwrn, a rhwng 7am a 10am ar ddydd Sul, gyda bwletinau newyddion yn ystod yr wythnos yn cael eu darlledu am 7.30am a 8.30am.

[3] BBC Radio Cymru 2 yn taro'r tonfeddi, BBC, 29 Ionawr 2018.

Pan nad oedd Radio Cymru 2 yn darparu oriau gwreiddiol, roedd yn cael ei gyd-ddarlledu â'r gwasanaeth Radio Cymru presennol.

Ym mis Awst 2022, cyhoeddodd y BBC ei fod yn bwriadu cynyddu oriau darlledu Radio Cymru 2 o 15 awr i dros 60 awr yr wythnos.[4] O dan y cynlluniau hyn, byddai BBC Radio Cymru yn parhau i ddarlledu ei amserlen i'r genedl a byddai BBC Radio Cymru 2 yn cynnig cymysgedd o raglenni sy'n seiliedig ar gerddoriaeth wedi ei blethu â chynnwys cyd-ddarlledu presennol o rai o raglenni adloniant Radio Cymru ar deledu digidol.

Cynhaliodd y BBC asesiad perthnasedd ar y newidiadau hyn yn ystod haf 2022 a daeth i'r casgliad na fyddai'r oriau ychwanegol yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Er mwyn cydymffurfio â phrosesau rheoleiddio, fe wnaethom rannu ein hasesiad a'n casgliad ag Ofcom. Ym mis Medi 2022, dywedodd Ofcom wrth y BBC y byddai'r cynnig i gynyddu oriau gwreiddiol Radio Cymru 2 o 11% i 47% o gyfanswm ei oriau darlledu (gyda'r gweddill yn cael ei gyd-ddarlledu gyda phrif wasanaeth Radio Cymru) yn golygu na fyddai modd ystyried Radio Cymru 2 fel gwasanaeth optio allan mwyach a byddai angen iddi ddod yn orsaf radio newydd. Felly, byddai angen sefydlu Radio Cymru 2 fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU a byddai'r cynigion yn galw am brawf llawn Lles y Cyhoedd.

Ar 3 Hydref 2022, lansiodd Radio Cymru 2 sioe newydd rhwng 9am ac 11am ar ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 11am ac 1pm ar ddydd Gwener.[5] Roedd hyn yn cynyddu oriau darlledu'r orsaf i 25 awr yr wythnos. Cytunodd Ofcom fod Radio Cymru 2 ar y raddfa hon yn parhau i fod yn ddewis arall ar gyfer Radio Cymru yn hytrach na bod angen iddo fod yn wasanaeth newydd ynddo'i hun.

---

[4] BBC yn cyhoeddi ei fwriad i ymestyn Radio Cymru 2 i ddarlledu 60 awr yr wythnos, BBC, 3 Awst 2022.

[5] Rhydian Bowen Phillips, Lisa Gwilym a Dom James i gyflwyno rhaglenni newydd ar BBC Radio Cymru 2, BBC, 20 Medi 2022.

# 3. Cynigion y BBC ar gyfer Radio Cymru 2

Dyma'r prif elfennau ein cynigion ar gyfer Radio Cymru 2.

## 3.1 Cynulleidfa darged

O dan y newidiadau arfaethedig hyn, bydd Radio Cymru 2 yn parhau i dargedu siaradwyr Cymraeg neu'r rheini sydd â diddordeb mewn gwrando ar gynnwys Cymraeg rhwng 25 a 54 oed. Yn benodol, bydd Radio Cymru 2 yn parhau i dargedu siaradwyr Cymraeg sydd â lefelau is o ruglder. Bydd y newidiadau arfaethedig yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg gan fod mwy a mwy o siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd llai rhugl neu gymysg eu hiaith.

## 3.2 Cyllideb

£400,000 y flwyddyn yw'r gyllideb bresennol ar gyfer BBC Radio Cymru 2. Rydym yn amcangyfrif y bydd yn costio £10,000 ychwanegol y flwyddyn i ymestyn oriau darlledu Radio Cymru 2 o 36.5 awr yr wythnos, sef cynnydd o 2.5% yn ei chyllideb. Bydd hyn yn cael ei ariannu drwy ail flaenoriaethu cyllid gan BBC Radio Cymru.

Mae'r estyniad yn gost-effeithiol iawn gan fod yr holl gostau dosbarthu a gweithredu eisoes wedi gostwng. Mae'r costau ychwanegol a ysgwyddir sy'n ymwneud ag ymestyn gwasanaeth Radio Cymru 2 yn cynnwys ymestyn tair rhaglen dan arweiniad cyflwynydd yn hytrach na chreu rhaglenni newydd dan arweiniad cyflwynydd. Bydd yr oriau newydd sy'n weddill ar gyfer ymestyn y gwasanaeth yn cael eu llenwi gan restrau chwarae wedi'u paratoi gan gynhyrchwyr ar amser gyrru ac ar benwythnosau.

## 3.3 Cynnig golygyddol

### *3.3.1 Oriau darlledu*

Ar ôl rhoi'r newidiadau ar waith, bydd Radio Cymru 2 yn cynnig 61.5 awr o oriau gwreiddiol yr wythnos, a fydd yn gymysgedd o raglenni rhestr chwarae sydd wedi'u recordio ymlaen llaw, yn ogystal â chynnwys sy'n cael ei arwain gan gyflwynwyr. Bydd yr oriau gwreiddiol hyn yn cael eu plethu â chynnwys cyd-ddarlledu gan Radio Cymru, a fydd yn golygu bod Radio Cymru 2 yn orsaf radio 18.5 awr y dydd sy'n gweithredu rhwng 5.30am a hanner nos bob dydd.

Bydd cynnwys gwreiddiol dan arweiniad cyflwynydd rhwng 7am a 2pm o ddydd Llun i ddydd Iau, rhwng 7am a 9am a rhwng 11am a 2pm ar ddydd Gwener, rhwng 7am a 9am ar ddydd Sadwrn a rhwng 7am a 10am ar ddydd Sul. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid rhaglenni newydd dan arweiniad cyflwynydd yw'r rhain, ond darpariaeth i ymestyn rhaglenni cyfredol.

Bydd y rhestrau chwarae'n cael eu curadu gan gynhyrchwyr ac yn cael eu chwarae rhwng 5pm a 7pm o ddydd Llun i ddydd Iau, rhwng 5pm a 6pm ar ddydd Gwener, rhwng 2pm a 5.30pm ar ddydd Sadwrn, a rhwng 10am a 9pm ar ddydd Sul.

Hefyd, bydd bwletin newyddion dyddiol yn ystod yr wythnos yn ogystal â'r ddau fwletin presennol. Felly, bydd bwletinau Radio Cymru 2 yn cael eu darlledu am 8.30am, 10.30am a 12.30pm.

<table>
<tr><th></th><th>Dydd Llun i ddydd Iau</th><th>Dydd Gwener</th><th>Dydd Sadwrn</th><th>Dydd Sul</th></tr>
<tr><td>05:30</td><td rowspan="3">Oriau cyd-ddarlledu gyda Radio Cymru</td><td rowspan="3">Oriau cyd-ddarlledu gyda Radio Cymru</td><td rowspan="3">Oriau cyd-ddarlledu gyda Radio Cymru</td><td rowspan="3">Oriau cyd-ddarlledu gyda Radio Cymru</td></tr>
<tr><td>06:00</td></tr>
<tr><td>06:30</td></tr>
<tr><td>07:00</td><td rowspan="8">Rhaglenni yn cael eu cyflwyno gan Rhydian Bowen Phillips a Lisa Gwilym</td><td rowspan="4">Rhaglen yn cael ei chyflwyno gan Lisa Angharad</td><td rowspan="4">Rhaglen yn cael ei chyflwyno gan Daniel Glyn</td><td rowspan="6">Rhaglen yn cael ei chyflwyno gan Mirain Iwerydd</td></tr>
<tr><td>07:30</td></tr>
<tr><td>08:00</td></tr>
<tr><td>08:30</td></tr>
<tr><td>09:00</td><td rowspan="4">Oriau cyd-ddarlledu gyda Radio Cymru</td><td rowspan="10">Oriau cyd-ddarlledu gyda Radio Cymru</td></tr>
<tr><td>09:30</td></tr>
<tr><td>10:00</td><td rowspan="22">Rhestr Chwarae Newydd</td></tr>
<tr><td>10:30</td></tr>
<tr><td>11:00</td><td rowspan="6">Oriau estynedig o raglenni gwreiddiol</td><td rowspan="4">Rhaglen yn cael ei chyflwyno gan Dom James</td></tr>
<tr><td>11:30</td></tr>
<tr><td>12:00</td></tr>
<tr><td>12:30</td></tr>
<tr><td>13:00</td><td rowspan="2">Oriau estynedig o raglenni gwreiddiol</td></tr>
<tr><td>13:30</td></tr>
<tr><td>14:00</td><td rowspan="6">Oriau cyd-ddarlledu gyda Radio Cymru</td><td rowspan="6">Oriau cyd-ddarlledu gyda Radio Cymru</td><td rowspan="7">Rhestr Chwarae Newydd</td></tr>
<tr><td>14:30</td></tr>
<tr><td>15:00</td></tr>
<tr><td>15:30</td></tr>
<tr><td>16:00</td></tr>
<tr><td>16:30</td></tr>
<tr><td>17:00</td><td rowspan="4">Rhestr Chwarae Newydd</td><td rowspan="3">Rhestr Chwarae Newydd</td></tr>
<tr><td>17:30</td><td rowspan="14">Oriau cyd-ddarlledu gyda Radio Cymru</td></tr>
<tr><td>18:00</td></tr>
<tr><td>18:30</td><td rowspan="12">Oriau cyd-ddarlledu gyda Radio Cymru</td></tr>
<tr><td>19:00</td><td rowspan="11">Oriau cyd-ddarlledu gyda Radio Cymru</td></tr>
<tr><td>19:30</td></tr>
<tr><td>20:00</td></tr>
<tr><td>20:30</td></tr>
<tr><td>21:00</td><td rowspan="7">Oriau cyd-ddarlledu gyda Radio Cymru</td></tr>
<tr><td>21:30</td></tr>
<tr><td>22:00</td></tr>
<tr><td>22:30</td></tr>
<tr><td>23:00</td></tr>
<tr><td>23:30</td></tr>
<tr><td>00:00</td></tr>
</table>

**Ffigur 1: Oriau darlledu ar gyfer Radio Cymru 2 o dan yr estyniad arfaethedig**

■ Cyd-ddarlledu ■ Rhaglenni Gwreiddiol □ Rhaglenni Gwreiddiol Newydd/Estynedig

### 3.3.2 *Cymysgedd cerddoriaeth*

Bydd iaith cyflwyno Radio Cymru 2 yn gwbl Gymraeg gydag oddeutu 50% o'r gerddoriaeth yn Gymraeg yn unol â'r cynnig presennol ar Radio Cymru 2 ers 2018. Mae hyn ychydig yn is na chyfran bresennol Radio Cymru o 66% o gerddoriaeth Gymraeg. Fodd bynnag, yn unol â chynulleidfa darged Radio Cymru 2, bwriad y gymysgedd hon o gerddoriaeth yw adlewyrchu anghenion siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd llai rhugl neu gymysg eu hiaith. Mae cynulleidfaoedd Radio Cymru 2 wedi dweud y byddent yn gweld 50% o gerddoriaeth Gymraeg yn addas ar gyfer gwasanaeth o'r math hwn.[6]

## 3.4 Dosbarthiad

Ni fydd y newidiadau arfaethedig yn newid sut mae Radio Cymru 2 yn cael ei dosbarthu ar hyn o bryd. Hynny yw, bydd ar gael ar DAB, BBC Sounds, apiau ar-lein eraill, seinyddion clyfar a theledu digidol.

## 3.5 Amcangyfrif o gyrhaeddiad a chyfran y gwrando

O ystyried nifer isel yr oriau darlledu, nid yw RAJAR yn adrodd ar wahân ar ffigurau cynulleidfa Radio Cymru 2 ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae gwrando ar Radio Cymru 2 yn cael ei adrodd fel rhan o ffigurau cynulleidfa Radio Cymru.

Yn ystod chwarter cyntaf 2023, roedd gan Radio Cymru (sef Radio Cymru a Radio Cymru 2) gyfran o 3.0% o'r gwrando yng Nghymru, gan gyrraedd 130,000 o wrandawyr bob wythnos (4.9% o boblogaeth Cymru 15 oed a hŷn), gan ddarparu 1.517 miliwn o oriau o wrando ar radio'r BBC. Mae'r perfformiad hwn yn cyfateb i gyrhaeddiad o tua 24% ymysg siaradwyr Cymraeg.[7]

Yn ôl data a ddarparwyd gan RAJAR, mae 15 awr wythnosol gychwynnol rhaglenni Radio Cymru 2 wedi cyrraedd tua 11,000 o wrandawyr bob wythnos.

Rydym yn amcangyfrif y gallai Radio Cymru 2 gyrraedd rhwng 30,000 a 50,000[8] o wrandawyr pob wythnos cyn pen tair blynedd ar ôl ei roi ar waith, gyda 7.5 awr yr wythnos ar gyfartaledd fesul gwrandäwr. Ar sail data RAJAR ar gyfer chwarter cyntaf 2023, byddai hyn yn cynrychioli cyrhaeddiad wythnosol o 1.1% i 1.9% a chyfran o'r gwrando o 0.4% i 0.7%.

## 3.6 Effaith bosibl ar y farchnad

Ein rhagdybiaeth gychwynnol yw nad yw'r estyniad arfaethedig i oriau Radio Cymru 2 yn debygol o gael unrhyw effaith sylweddol, hyd yn oed ar ei gystadleuwyr agosaf. Gan fod Radio Cymru 2 yn wasanaeth cenedlaethol unigryw sy'n cynnig rhaglenni adloniant Cymraeg unigryw, byddem yn disgwyl i unrhyw effaith fod yn fach iawn ac, mewn unrhyw achos, ar wasgar ar draws y sector. Byddem hefyd yn ystyried y bydd ei gynulleidfa'n dod i raddau helaeth gan wrandawyr presennol Radio Cymru sydd â diddordeb mewn

---

[6] Oxygen Brand Consulting Audience Research, Mawrth 2021.

[7] Yn 2021, dywedodd oddeutu 538,000 o breswylwyr arferol yng Nghymru a oedd yn dair oed a hŷn (17.8%) eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Y Gymraeg, Cymru: Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 6 Rhagfyr 2022.

[8] Dyma'r amcangyfrif ceidwadol o'r terfyn uchaf.

gwrando ar fwy o adloniant a cherddoriaeth nag sydd ar gael ar Radio Cymru. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal dadansoddiad manylach o'r farchnad fel rhan o'r broses Prawf Lles y Cyhoedd.

### *3.6.1 Gwasanaethau radio sy'n cynnig cynnwys Cymraeg*

Rydym yn credu y bydd yr effaith fwyaf tebygol ar y gwasanaethau hynny sydd fwyaf tebyg i gynigion Radio Cymru 2. Felly, byddwn yn canolbwyntio ein dadansoddiad ar y gorsafoedd radio hynny sy'n darparu rhaglenni Cymraeg. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pedwar darparwr radio masnachol a drwyddedir gan Ofcom yng Nghymru sy'n darparu gwahanol raddau o raglenni Cymraeg.

Rydym yn disgwyl mai bach iawn fydd effaith y cynigion ar orsafoedd radio Cymraeg eraill. Bydd Radio Cymru 2 yn parhau i ddarlledu ledled Cymru ac yn gwasanaethu holl wrandawyr Cymru, yn wahanol i'r gorsafoedd radio hyn sy'n darlledu'n rhanbarthol ac yn targedu cynulleidfaoedd rhanbarthol lleol. Ar ben hynny, dim ond gyda Capital Cymru y bydd oriau darlledu Radio Cymru 2 yn gorgyffwrdd.

**Ffigur 2: Crynodeb o gystadleuwyr Radio Cymru 2**

| **Enw** | **Ardal Ddarlledu** | **Oriau Darlledu Cymraeg** | **Dosbarthiad** | **Poblogaeth (000)** | **Cyfran yn TSA (%)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Capital Cymru (Global) | Gwynedd; Ynys Môn; Gogledd Cymru | 6am – 7pm (Llun-Gwener) 9am-12pm (Sad-Sul) | FM/DAB | 190 | Anhysbys[9] |
| GHR De Cymru (Bauer) | Abertawe; Castell-nedd Port Talbot; Dwyrain Sir Gaerfyrddin; De Orllewin Cymru | 10pm-hanner nos (Sul-Iau) | MW/DAB | 1,674 | 0.8 |
| Radio Sir Gâr (Nation Broadcasting) | Sir Gaerfyrddin | 9-10pm (Sul) | FM/DAB | 142 | 3.8 |
| Radio Sir Benfro (Nation Broadcasting) | Sir Benfro | 9-10pm (Sul) | FM/DAB | 105 | 7.8 |

### *3.6.2 Gwasanaethau radio masnachol eraill*

Mae darparwyr radio masnachol eraill yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yng Nghymru, er enghraifft, Heart South Wales, Capital South Wales a Smooth Wales, sydd i gyd yn cynnig cymysgedd o adloniant yn Saesneg, y mae rhan helaeth ohono'n tarddu o radio rhwydwaith, gyda rhywfaint o raglenni optio allan dyddiol. Maent hefyd yn cynnig cyfuniad o fwletinau newyddion rhanbarthol a diweddariadau newyddion cenedlaethol, ond nid rhaglenni Cymraeg. Mae cynulleidfaoedd yng Nghymru hefyd yn gwrando ar wasanaethau radio ledled y DU.

[9] Nid yw RAJAR yn adrodd ar wahân am Capital Cymru.

Rydym yn rhagweld y bydd y broses o ddargyfeirio cynulleidfaoedd o radio lleol masnachol Saesneg neu radio ledled y DU yn fach iawn, yn enwedig o ystyried cyrhaeddiad a defnydd presennol cynulleidfa Radio Cymru 2.

Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd cyflwyno oriau ychwanegol o raglenni adloniant a cherddoriaeth Cymraeg yn debygol o gael unrhyw effaith sylweddol ar wrando ar y gwasanaethau hyn.

# 4. Darparu gwerth cyhoeddus

## 4.1 Cyflawni yn erbyn Cenhadaeth y BBC

Mae'r BBC yn sefydliad sy'n cael ei sbarduno gan ei bwrpas. Ei genhadaeth yw "gweithredu er lles y cyhoedd, gwasanaethau pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd a neilltuol o safon uchel, sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu".[10]

Wrth wneud hynny, rhaid i'r BBC sicrhau gwerth gwych am arian yn gyfnewid am ffi'r drwydded. Ochr yn ochr â'r genhadaeth hon mae pum diben cyhoeddus sy'n arwain gweithrediad y BBC ymhellach. Sef:

- Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd;
- Cefnogi dysgu i bobl o bob oed;
- Darparu cynnwys unigryw;
- Adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU a chefnogi'r economi greadigol; ac
- Adlewyrchu'r DU i'r byd.[11]

## 4.2 Ein damcaniaeth gwerth cyhoeddus

Rydym o'r farn y bydd ymestyn oriau Radio Cymru 2, sy'n golygu ei bod yn Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU ynddo'i hun, yn cyfrannu at genhadaeth y BBC ac yn benodol at yr ail a'r pedwerydd diben cyhoeddus, sef cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed ac adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU, yn y drefn honno.

Yn benodol, rydym o'r farn y bydd ein cynigion ar gyfer Radio Cymru 2 yn:

- Gwasanaethu cynulleidfaoedd yng Nghymru yn well, yn enwedig gwrandawyr iau (rhwng 25 a 54 oed), sydd â diddordeb mewn gwrando ar gynnwys rhaglenni cerddoriaeth a llafar yn Gymraeg neu sy'n siaradwyr Cymraeg ac sy'n llai rhugl yn yr iaith. Bydd Radio Cymru 2 yn cynnig 50% o gerddoriaeth Gymraeg tra bydd Radio Cymru yn parhau i ddarparu 66% o'i rhaglenni cerddoriaeth yn y Gymraeg.
- Annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg a chyfrannu at amcan y BBC o ddarparu cynnwys i amrywiaeth o siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys y rheini sy'n ystyried dysgu'r iaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg a chael 20% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg bob dydd erbyn 2050, sy'n bolisïau a gefnogir yn eang. Mae estyniad arfaethedig Radio Cymru 2 yn cyd-fynd â datblygiadau diwylliannol eraill yn y maes hwn gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
- Cynyddu cyrhaeddiad y gynulleidfa gyda mwy o gynnwys gwreiddiol y bydd gwrandawyr Radio Cymru 2 yn ei fwynhau.
- Cefnogi'r diwydiant recordio cerddoriaeth Gymraeg. Byddwn yn arddangos mwy o gerddoriaeth gan artistiaid Cymraeg presennol a newydd, a fydd yn gwella eu

[10] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 5
[11] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 6

gwerthiant a’u ffrydiau yn is i lawr y gadwyn gyflenwi, ac yn annog gwrandawyr i fynd i'w gigs.

- Darparu mwy o werth i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith. Bydd gwrandawyr yn gallu cael gafael ar fwy o gynnwys, gan roi mwy o ddewis iddynt o ran rhaglenni Cymraeg gwahaniaethol.

# 5. Manylion pellach am yr ymgynghoriad

## 5.1 Proses Prawf Lles y Cyhoedd

Mae Prawf Lles y Cyhoedd yn elfen allweddol o system lywodraethu'r BBC, a ddaeth i rym yn y Siarter a'r Cytundeb cyfredol o fis Ebrill 2017.[12]

Mae'r Cytundeb yn rhoi'r cyfrifoldeb, yn y lle cyntaf i Fwrdd y BBC, ar gyfer ystyried effaith rhai newidiadau arfaethedig i wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU[13]. Rhaid i'r BBC ystyried a yw unrhyw rai o'r newidiadau arfaethedig yn rhai o bwys.

Ni chaiff y BBC wneud newidiadau o bwys i'w wasanaethau cyhoeddus yn y DU[14] oni bai:

a) Ei fod wedi cynnal Prawf Lles y Cyhoedd;
b) Bod y prawf yn cael ei fodloni; a
c) Bod Ofcom wedi penderfynu y gellir bwrw ymlaen â'r cynnig.[15]

Ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, mae'r Cytundeb yn diffinio'r newid o bwys fel lansio gwasanaeth cyhoeddus newydd, neu unrhyw newid i Wasanaethau Cyhoeddus y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithlon.[16]

Rydym wedi nodi'r broses isod.

### *5.1.1 Rhan y BBC yn y broses*

Rydym yn credu ei bod yn annhebygol y bydd y cynigion i ymestyn oriau gwreiddiol ar Radio Cymru 2, fel yr amlinellir yn fanwl yn Adran 3 y ddogfen ymgynghori hon, yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol gan nad oes dewis arall masnachol. Fodd bynnag, o ystyried y cynnydd mewn oriau gwreiddiol, bydd Radio Cymru 2 yn dod yn Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU. Felly, rydym yn cynnal Prawf Lles y Cyhoedd.

#### 5.1.1.1 Ymgynghori ac Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Fel rhan o'r broses, mae'r BBC wedi ymrwymo yn ei Bolisi ar Newidiadau o Bwys i geisio adborth gan bartïon â diddordeb wrth iddo gynnal Prawf Lles y Cyhoedd.[17] Fel y mae Ofcom yn nodi yn ei Fframwaith Gweithredu, mae o fudd i drydydd partïon sicrhau eu bod yn codi pryderon gyda'r BBC pan ydym yn cynnal ein Prawf Lles y Cyhoedd a thynnu

---

[12] Siarter Frenhinol y BBC (Erthygl 12, 20, 37, 46 a 63) 'r Cytundeb Fframwaith (Cymal 7 i 11 ynghylch Gwasanaethau Cyhoeddus y DU ac 16 i 20 ynghylch gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau)
[13] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 20(4)
[14] Mae'r BBC yn cadw ac yn cyhoeddi rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn unol ag Atodlen 1, Rhan 1 o'r Cytundeb Fframwaith.
[15] Cytundeb Fframwaith y BBC, Cymal 7(6)
[16] Cytundeb Fframwaith y BBC, Cymal 7(7)
[17] Polisi ar newidiadau o bwys i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC a gweithgareddau masnachol

sylw at broblemau posibl sy'n codi o'r cynigion ar y cam hwn. [18] Bydd hyn yn caniatáu i'r BBC ystyried problemau posibl wrth ddatblygu'r cynigion terfynol.

Mae'r BBC yn croesawu'r cyfle i drafod ein cynigion ymhellach gyda rhanddeiliaid sydd â diddordeb. Yn benodol, bydd y BBC yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys darlledwyr masnachol eraill, grwpiau cynulleidfa, cyrff Cymraeg, a llunwyr polisi eraill yng Nghymru.

#### 5.1.1.2 Ymchwil a dadansoddi

Er mwyn cyfrannu at Brawf Lles y Cyhoedd, bydd y BBC yn defnyddio data ac ymchwil cynulleidfaoedd, ac yn cynnal ei ddadansoddiad ei hun o'r gwerth cyhoeddus a gynhyrchir gan y cynnig.

Er mwyn asesu graddfa a thebygolrwydd unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, data'r diwydiant, ymchwil cynulleidfa (pan fydd ar gael), a dadansoddiad economaidd.

#### 5.1.1.3 Penderfyniad gan Fwrdd y BBC

I gwrdd â'r meini prawf a nodir yn y Prawf Lles y Cyhoedd, rhaid i Fwrdd y BBC fod yn fodlon bod y cynllun newydd yn cefnogi cenhadaeth y BBC; ei fod yn hyrwyddo'i ddibenion cyhoeddus; fod y BBC wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw'r newid yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithlon; a bod gwerth cyhoeddus y cynllun yn cyfiawnhau unrhyw effaith ar gystadleuaeth. Pan fo Bwrdd y BBC yn pennu bod yr elfennau uchod o'r Prawf Lles y Cyhoedd wedi'u bodloni, bydd y BBC yn cyhoeddi fersiwn heb fod yn gyfrinachol o'r newid arfaethedig ac yn ei gyfeirio at Ofcom. Mae'r BBC yn bwriadu gwneud hynny yn ystod yr Hydref 2023.

### *5.1.2 Rhan Ofcom yn y broses*

Fel rheoleiddiwr y BBC, Ofcom fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a gaiff newid o bwys fynd rhagddo ai peidio. O fewn 6 wythnos i gyhoeddi'r Prawf Lles y Cyhoedd mae'n rhaid i Ofcom benderfynu a yw'r newid a gynigir gan y BBC yn un o bwys ai peidio. Os bydd Ofcom yn penderfynu bod y newid arfaethedig yn un o bwys, bydd wedyn yn cynnal Asesiad o'r Gystadleuaeth, neu asesiad byrrach, yn cynnwys y camau canlynol:

- Gwneud arolwg o farn rhanddeiliaid;
- Adolygu'r gweithdrefnau mae'r BBC wedi'u dilyn wrth gynnal Prawf Lles y Cyhoedd, gan gynnwys a yw'r BBC wedi ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid allanol;
- Adolygu asesiad y BBC o werth cyhoeddus y newid;
- Asesu effaith niweidiol y newid arfaethedig ar gystadleuaeth; ac
- Asesu a yw gwerth cyhoeddus y newid yn cyfiawnhau unrhyw effaith negyddol ar gystadleuaeth.

---

[18] Asesu effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC: *Gweithdrefnau a chanllawiau Ofcom*, paragraff 4.17

Ar ddiwedd Asesiad Cystadleuaeth y BBC, gall Ofcom ddod i bedwar math o benderfyniad:

- Anfon y cynnig neu elfennau o'r cynnig yn ôl i'r BBC i'w hailystyried;
- Caniatáu i'r newid fynd rhagddo;
- Gofyn iddynt wneud addasiadau neu osod amodau cyn bwrw ymlaen â'r newid; neu
- Benderfynu na chaiff y BBC fwrw ymlaen â'r newid arfaethedig.

Os bydd Ofcom yn cynnal asesiad byrrach, gall Ofcom ddod i ddau fath o benderfyniad:

- Anfon y cynnig neu elfennau o'r cynnig yn ôl i'r BBC i'w hailystyried; neu
- Caniatáu i'r newid fynd rhagddo.

## 5.2 Cwestiynau ymgynghoriad y BBC

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhedeg am bum wythnos o 27 Gorffennaf 2023 i 31 Awst 2023.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi gwybodaeth am ein bwriad i ymestyn y gwasanaeth ar gyfer Radio Cymru 2. Ein bwriad yw rhoi digon o wybodaeth i randdeiliaid i'w galluogi i ymgysylltu'n ystyrlon â ni wrth i ni roi trefn derfynol ar ein cynigion, ac yn y pen draw byddwn yn eu cynnwys mewn Prawf Lles y Cyhoedd. Er bod meysydd o ansicrwydd yn parhau ar y cam hwn yn ein proses, rydym o'r farn ein bod wedi darparu cymaint o wybodaeth ag y gallwn ynghylch ein cynlluniau heb gyhoeddi unrhyw wybodaeth a allai fod yn fasnachol sensitif.

Rydym yn ceisio barn yr holl randdeiliaid, yn benodol rhanddeiliaid y diwydiant, ar ein cynigion ar gyfer Radio Cymru 2, yn bennaf ynghylch y cwestiynau canlynol:

**Cwestiwn 1:** Beth yw eich barn chi am werth cyhoeddus posibl ein cynigion ar gyfer ymestyn nifer yr oriau gwreiddiol ar gyfer Radio Cymru 2, gan gynnwys i ba raddau y mae ein cynigion yn cyfrannu at genhadaeth y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch unigryw o ansawdd uchel a gwasanaethau sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu?

**Cwestiwn 2:** Beth yw eich barn am y budd i gynulleidfaoedd a fydd yn gwrando ar yr orsaf, yn ogystal â'r effeithiau cymdeithasol a diwylliannol ehangach posibl?

**Cwestiwn 3:** Pa effaith (cadarnhaol neu negyddol) ydych chi'n meddwl y gallai ein cynnig ar gyfer Radio Cymru 2 estynedig ei chael ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ar orsafoedd radio masnachol sy'n darparu (a) gwasanaethau radio Cymraeg eraill, a (b) gwasanaethau radio Saesneg, sef y gwasanaethau lleol yng Nghymru neu orsafoedd ledled y DU?

**Cwestiwn 4:** A oes unrhyw gamau y gallem eu cymryd yn eich barn chi i leihau i'r eithaf unrhyw effeithiau negyddol posibl ar gystadleuaeth deg ac effeithlon neu i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol posibl?

## 5.3 Sut i ymateb

Byddem yn ddiolchgar pe gallai ymatebwyr, lle bynnag y bo'n ymarferol bosibl, ymateb i bob cwestiwn yn uniongyrchol.

Os hoffech chi ymateb i’r ymgynghori hwn, anfonwch eich ymateb drwy'r e-bost at publicinterest.test@bbc.co.uk.

Cysylltwch â publicinterest.test@bbc.co.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses hon, am ein hymgynghoriad, neu os ydych eisiau trafod y cynigion hyn ymhellach.

Nodwch yn eich ymateb a ddylai rhywfaint neu’r cyfan o’ch ymateb gael ei drin yn gyfrinachol. Byddwn yn defnyddio’r ymatebion i hysbysu ein gwaith ar y Prawf Lles y Cyhoedd yn y dyfodol. Efallai y byddwn yn cyfeirio at ymatebion, un ai yn gyffredinol neu gyfeiriadau penodol, fel rhan o’r Prawf Lles y Cyhoedd y byddwn yn ei gyhoeddi. O ran ymatebion cyfrinachol, efallai y byddwn yn holi ynghylch sut i gynnwys y rhain mewn Prawf Lles y Cyhoedd lle bo’n briodol, yn ogystal ag a gawn ni ddarparu’r rhain i Ofcom ar sail gyfrinachol ai peidio, i helpu Ofcom gyda’i asesiad perthnasedd.

Ni allwn ystyried sylwadau sy’n ymwneud â materion ehangach fel ffi’r drwydded neu sylwadau sy’n ymwneud â rhaglenni a chynnwys y BBC.